# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6 E+W

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU [F1 A CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG] A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1 E+W

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH[F2: PRIF GYNGHORAU]

*Diwygio deddfiadau eraill*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Rhn. 6 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(1)**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Rhn. 6 Pnd. 1 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(2)**

### 113 Datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â phrif gynghorau a diddymu darpariaethau ynglŷn â chydlynu archwiliad E+W

Ym Mesur 2009 hepgorer—

(a) adran 1(a) (ystyr "awdurdod gwella Cymreig");

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Diwygio deddfiadau eraill. (See end of Document for details)*

(b) adran 4(3)(a) (agweddau ar wella);

(c) adran 11(1)(b) a (2) (ystyr "pwerau cydlafurio");

(d) adran 16(2)(a) a (b) (ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol");

(e) adran 22(5) (adroddiadau am arolygiadau arbennig sy'n ymwneud â budd-dal tai);

(f) adran 23 (cydlynu archwiliad);

(g) adran 25(4)(d) (datganiad o arfer gan Archwilydd Cyffredinol Cymru);

(h) adran 33 (rhannu gwybodaeth); ac o ganlyniad, yn adran 159 o'r Ddeddf hon hepgorer is-adran (10).

### 114 Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 E+W

Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol, caiff awdurdod lleol gyhoeddi ei adroddiad o dan y paragraff hwn a'i adroddiad o dan adran 91(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (hunanasesiad o berfformiad) yn yr un ddogfen."

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Diwygio deddfiadau eraill.